| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR : | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD : | 25 GORFFENNAF 2011 |
| TEITL YR ADRODDIAD : | ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIO MEWNOL<br>01 EBRILL 2011 – 30 MEHEFIN 2011 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN : | RHEOLWR ARCHWILIO - RSM TENON |
| GWEITHREDU: | DIM |

1. RHAGARWEINIAD

1.1 Yn yr adroddiad hwn, crynhoir gwaith yr Adain Archwilio Mewnol hyd at 30 Mehefin 2011 a hefyd mae ynddo grynodeb o bob un o'r adroddiadau terfynol y rhoddwyd iddynt farn 'Sicrwydd Coch' ynghyd â Chrynodebau Gweithredol o'r adroddiadau.

1.2 Yn achos pob adroddiad terfynol y rhoddwyd iddo farn 'Sicrwydd Coch', paratoir Arolwg Dilyn-i-fyny ac yn hwnnw nodir beth yw barn yr Adain Archwilio ar gynnydd y rheolwyr yn y broses o weithredu ar argymhellion yn y categori Uchel a Chanolig yn codi o'r Adroddiad Terfynol gwreiddiol. Cyflwynir canlyniadau'r arolwg Dilyn-i-fyny i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.

1.3 Cafodd un adolygiad yn y cyfnod farn 'Sicrwydd Coch' ac mae crynodeb o gasgliadau'r adolygiad hwn ynghlwm yn Atodiad A ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Roedd yr adolygiad yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor gyda gofynion y Polisi Rheoli Fflyd.

1.4 Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg lle bynnag y mae hynny'n bosib, ond gall ddefnyddio arolygon system, arolygon rheolaethau allweddol, arolygon sefydliad neu arolygon ymgynghorol os yw'r dulliau hyn yn fwy priodol.

1.5 Mae'r adroddiadau terfynol unigol ar gael i aelodau'r Pwyllgor hwn, ar sail gyfrinachol, ar gais i'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio.

2. Y GWAITH A WNAED HYD YMA

2.1 Cytunwyd ar Gynllun Gweithredol 2011-12 yn y Pwyllgor Archwilio a gafwyd ar 24 Mawrth 2011. Paratowyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Allanol, gyda'r Swyddog Adran 151 a thrwy gyfarfodydd a gohebiaeth gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.

2.2 Mae Tabl 1 isod yn dangos statws yr adolygiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ac/neu sydd wedi eu cwblhau hyd at adroddiad terfynol yn y cyfnod hwn ynghyd â'r farn archwilio gyffredinol.

Tabl 1

| Teitl yr Adolygiad | Maes Gwasanaeth | Blwyddyn y Cynllun AM | Statws | Barn CAG |
|---|---|---|---|---|
| ***Adolygiadau sy'n seiliedig ar risg/ Adolygiadau System*** | | | | |
| Rhyngwynebau Ariannol | Cyllid | 2010/11 | TERFYNOL | D/B/ Ymgynghorol |
| Lwfansau Aelodau | Polisi | 2010/11 | TERFYNOL | AMBER / GWYRDD |
| Cardiau Pwrcasu Corfforaethol | Cyllid | 2010/11 | TERFYNOL | AMBER / GWYRDD |
| Adolygiad Thematig o'r Ysgolion | Addysg | 2010/11 | TERFYNOL | D/B Ymgynghorol |
| Ailgylchu | Priffyrdd | 2010/11 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Polisi Rheoli Fflyd | Priffyrdd | 2010/11 | TERFYNOL | COCH |
| Cynnal | Addysg | 2010/11 | DRAFFT | |
| Rhybuddion Dirwy | Priffyrdd | 2010/11 | TERFYNOL | GWYRDD |
| TLIU – Credydwyr | Tai | 2010/11 | DRAFFT | |
| Diogelu | Corfforaethol | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Pwrcasu – gan gynnwys E-Dendro | Corfforaethol | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Rheoli Asbestos – Tai | Tai | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Rheoli Asbestos – G Purchase | Tai | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Rheoli Asbestos – Eiddo | Eiddo | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Brecwast am Ddim | Addysg | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Budd-dâl Tai – Mesurau Gwrthdwyll | Cyllid | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| ***Ysgolion*** | | | | |
| Ysgol Llanfairpwll | Addysg | 2010/11 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | Addysg | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Ysgol Goronwy Owen | Addysg | 2011/12 | DRAFFT | |
| Ysgol Syr Thomas Jones | Addysg | 2011/12 | DRAFFT | |
| ***Ymchwiliadau*** | | | | |
| Gwaith Trwsio Hanfodol | D/B | D/B | TERFYNOL | D/B |
| Cofnodi oriau a weithiwyd yn anghywir | D/B | D/B | DRAFFT | |
| Teithio – Y Don Geltaidd | D/B | D/B | INTERIM | |
| Cynhaliaeth - Gwestyau | D/B | D/B | Gwaith yn mynd rhagddo | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriad - Compost | D/B | D/B | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Cyfeiriad - Gwastraff Hylifol | D/B | D/B | Gwaith yn mynd rhagddo |

2.3 CRYNODEB O'R ADRODDIADAU ARCHWILIO A GYNLLUNIWYD AC A GYHOEDDWYD YN Y CYFNOD HWN

Ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf, rydym wedi cyhoeddi 8 o adroddiadau terfynol o Gynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2010-11 ac un o Gynllun 2011/12. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol mewn perthynas ag ymchwiliad hefyd yn y cyfnod hwn. Hyd yma mae 12 o adroddiadau terfynol wedi eu cyhoeddi yn 2011/12.

Mae crynodeb o'r graddfeydd a roddwyd ar gyfer yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd i'w weld yn y tabl isod. Mae crynodeb o'r graddfeydd fel a ganlyn:

| Barn / Graddfa CAGG | Beth yw ystyr y raddfa - | Ers y Pwyllgor Archwilio Diwethaf | Ebrill 2010 hyd at Mehefin 2011 |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd (Graddfa A&B) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. | 4 | 5 |
| Gwyrdd Oren (Graddfa C) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad. | 2 | 3 |
| Coch Oren (Graddfa D) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg. | 0 | 0 |
| Coch (Graddfa E) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Rhaid cymryd camau i reoli'r risg. | 1 | 1 |
| Cynghorol / Ymchwiliad | Arolwg cynghorol wedi'i gynllunio i bwrpas rhoddi cyngor ymarfer da – Dim barn ffurfiol. | 3 | 3 |
| | Cyfanswm | 10 | 12 |

2.4 Materion Staffio – Mae swydd wag yn dal i fod yn y Tîm Archwilio Mewnol am Archwilydd Mewnol. Gwnaed penderfyniad ym mis Tachwedd 2010 i beidio â phenodi hyd oni fydd swyddi mewnol sydd dan fygythiad yn y Cyngor wedi eu nodi a hyd nes y

bydd ymgeiswyr mewnol y mae eu swyddi dan fygythiad wedi cael eu hystyried ar gyfer y swydd.
Mae'r swydd wag hon yn y Tîm Archwilio Mewnol yn parhau i gael effaith ar allu'r Tîm i gynnal adolygiadau lefel uchel.

2.5 Adroddiadau gyda dim ymateb - Mae'r Pwyllgor eisoes wedi penderfynu y dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor lle na chafwyd ymateb cyn pen 3 mis o gyhoeddi adroddiad drafft neu adroddiad drafft diwygiedig gan yr Adain Archwilio Mewnol. Ni fu unrhyw adroddiadau o'r fath lle na chafwyd ymatebion cyn pen 3 mis yn y cyfnod hwn.

## 3. CYMHARU PERFFORMIAD GWIRIONEDDOL Y GWASANAETH YN ERBYN TARGEDAU BLYNYDDOL AM Y CYFNOD 01/04/11 – 30/06/11

3.1 Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2011/12. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn hefyd i'r cyfarfodydd perfformio chwarterol ar gyfer cyllid.

| Mesur Perfformiad | Targed 2011/12 | Gwirioneddol wedi ei addasu ar gyfer y cyfnod | Statws Targed | |
|---|---|---|---|---|
| % y cynlluniau archwilio a gwblhawyd yn y flwyddyn hyd at adroddiad drafft (60 o adolygiadau yn y cynllun - 4 adroddiad drafft a 3 adroddiad terfynol o 2011-12). | 90% | 46% | L | ê |
| Canran y diwrnodiau y codir amdanynt yn y cynllun a ddefnyddiwyd (955) | 100% | 75% | L | é |
| Lefelau boddhad cyffredinol y cwsmer yn seiliedig ar holiaduron. | 90% | 100% | J | ç è |
| % o'r holl argymhellion archwilio mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd | 80% | D/B* | D/B* | D/B* |
| Nifer yr adolygiadau cynlluniedig o Feysydd Risg Corfforaethol a nodwyd. | 9 | 0 | K | ç è |
| Cynnal dwy sesiwn hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn y cyfnod | 2 | 0 | K | ç è |
| Cwblhau adolygiad o Brosesau Gweithredu Cynlluniau Gwaith Darparwyr Sicrwydd Trydydd Parti Allanol | 1 | 0 | K | ç è |
| Cwblhau adolygiad o ran gwirio data mesur perfformiad yn y Cyngor | 1 | 0 | K | ç è |
| Gostyngiad yn nifer y dyddiau archwilio y codir amdanynt yn sgil cydweithredu yn y cyfnod | 10 | 0 | K | ç è |
| Nifer yr adolygiadau cydweithredol / adolygiadau gan ddefnyddio papurau gweithio cydweithredol a gynhaliwyd | 3 | 0 | K | ç è |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| yn y cyfnod. | | | | |

SYLWER - * Nid oes ffigwr ar gyfer Tracio Argymhellion yn y cyfnod hwn oherwydd mae argymhellion Archwilio Mewnol a wnaed ers 01-04-2010 yn y broses o gael eu glanhau o'r system gan y cyflenwr.

3.2 Roedd y targed mewn perthynas â chanran y dyddiau y codir amdanynt yn seiliedig ar gyflenwad llawn o staff Adain Archwilio Mewnol. Mae'r swydd wag yn y gwasanaeth yn golygu bod nifer y dyddiau y codir amdanynt yn is am y cyfnod hyd yma.

3.3 Mae argymhellion archwilio mewnol sydd dros ddyflwydd oed wrthi'n cael ei glanhau o'r system tracio argymhellion gan y sawl gyflenwodd y system. Bydd y system ddiwygiedig wedi ei ddiweddaru ar gael i adrodd yn gywir ac yn amserol ar gynnydd ar weithredu argymhellion i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.

## 4. GWAITH YMCHWILIO ARBENNIG

4.1 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gorfod gwneud gwaith ar faterion sy'n dod i'r fei yn ystod gwaith archwilio cynlluniedig neu oherwydd materion a ddygir i sylw'r Adain gan Adrannau eraill a gwaith hefyd mae adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn iddynt am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r ymchwiliadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol ond weithiau ni chyhoeddir adroddiad o'r fath (e.e. pan fo'r haeriad yn anghywir ac o'r herwydd does dim i gyflwyno adroddiad arno, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).

4.2 Mae'r ymchwiliad ynglŷn â'r grant adnewyddu fel yr adroddwyd yn yr adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol blaenorol yn parhau i fynd yn ei flaen. Mae'r mater wedi cael ei gyfeirio at yr heddlu i weithredu ymhellach fel y gwelant yn briodol. Mae'r Archwilydd Allanol yn gwneud ymchwiliadau pellach i ddwyn y mater hwn i ben.

4.3 Gofynnwyd i'r Adain Archwilio Mewnol hefyd ystyried mater a oedd yn ymwneud â chofnodi oriau a weithiwyd yn anghywir. Mae'r Adain Archwilio Mewnol wedi gweithio'n agos gyda Rheolwyr a'r Adain Adnoddau Dynol ar werthuso ac ymchwilio i'r dystiolaeth yn erbyn y staff dan sylw. Cyhoeddwyd Adroddiad Drafft ac mae'r trafodaethau'n parhau ynghylch gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad. Cymerwyd camau disgyblu priodol yn erbyn aelod o staff.

4.4 Gofynnwyd i'r Adain Archwilio Mewnol edrych ar dreuliau llety a chynhaliaeth mewn perthynas â gwaith sy'n gysylltiedig â theithio tramor. Mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo a gofynnwyd hefyd am waith ychwanegol ar gynhaliaeth ac mae hwnnw hefyd yn mynd yn ei flaen.

4.5 Derbyniwyd ac ymchwiliwyd i gyfeiriad mewn perthynas â Grant Gwaith Cynnal hanfodol. Daethpwyd o hyd i dystiolaeth i gefnogi'r haeriad a chyhoeddwyd adroddiad

terfynol. Gofynnwyd am gyngor cyfreithiol i weld a ddylai'r Cyngor gymryd unrhyw gamau pellach.

4.6 Derbyniwyd cyfeiriad ynglŷn â'r contract ar gyfer symud compost/purwr pridd o safle compostio'r Cyngor. Mae adroddiad drafft wedi cael ei baratoi ac mae'r rheolwyr yn y broses o ymateb i'r argymhellion a wnaed.

4.7 Derbyniodd yr Adain Archwilio Mewnol gwyn ynglŷn â'r broses dendro ar gyfer grant ailgylchu. Wedi cynnal cyfarfodydd gyda rheolwyr a chael cyngor cyfreithiol, derbyniwyd y gwyn a diddymwyd y rhybudd gwreiddiol yn dyfarnu'r contract a chafodd y contract ei ail-ddyfarnu yn unol â manylion y tendr gwreiddiol. Mae'r grant werth oddeutu £20k y flwyddyn.

## 5. TRACIO ARGYMHELLION

5.1 Mae'r feddalwedd Tracio Argymhellion 4Action wrthi'n cael ei diweddaru i ddarparu gwell tystiolaeth o'i gweithredu ac i'w gwneud yn haws i'w defnyddio. Fel rhan o'r broses hon, mae'r cwmni cyflenwi wrthi'n glanhau'r data argymhellion cyfredol er mwyn tynnu allan yr argymhellion hynach oherwydd o'i natur, daw argymhellion yn hen wrth i amser fynd yn ei flaen ac wrth i systemau ddatblygu.

5.2 Nid yw'n bosibl darparu data argymhellion ar hyn o bryd ond bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2011. Rhydd yr adroddiad hwn adlewyrchiad cywirach o berfformiad y Cyngor o ran gweithredu argymhellion.

## 6. ADOLYGIAD O LWFANSAU AELODAU 2010/11

6.1 Cynhaliwyd archwiliad o Lwfansau Aelodau o'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol ar gyfer 2010/11. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar roddi sicrwydd y talwyd y lwfansau cywir i'r aelodau cywir ar yr adeg iawn a bod y rheoliadau mewnol yn gweithio fel y dylent.

6.2 Arweiniodd yr adolygiad at farn Ambr / Gwyrdd yn gyffredinol gyda 9 o argymhellion blaenoriaeth ganolig a chwech o argymhellion blaenoriaeth isel yn cael eu gwneud. Mae mwy o fanylion am ganlyniadau'r adolygiad i'w gweld yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

RHEOLWR ARCHWILIO - RSM TENON
25 GORFFENNAF 2011

ATODIAD A

# ADOLYGIAD RHEOLI FFLYD – 2010/11

## RHAGARWEINIAD

Cynhaliwyd archwiliad o Reoli Fflyd fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol ar gyfer 2010/11. Mae'r Polisi Rheoli Fflyd wedi 'ei anelu'n bennaf at staff y Cyngor, eu harolygwyr a'u rheolwyr ac yn arbennig y rhai sy'n defnyddio cerbydau'r Awdurdod, sy'n gyrru eu cerbydau eu hunain i bwrpasau gwaith, neu gerbydau ar les i'r Awdurdod, neu sydd oherwydd natur eu gwaith, yn ddibynnol ar rai o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Rheoli Fflyd a Gyrrwr.'

Mae'r Polisi Rheoli Fflyd wedi'i gysylltu â Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor a luniwyd yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a'i nod yw bodloni gofynion Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiad Corfforaethol 2007 o safbwynt arddangos bod y ddyletswydd o ofal sydd gan y Cyngor dros ei weithwyr a'r cyhoedd yn cael ei chefnogi gan bolisïau cadarn a orfodir a thrwy gadw tystiolaeth o gydymffurfiaeth.

Fe ddywed y Polisi Rheoli Fflyd: "Mae monitro dogfennau'r gyrwyr yn rheolaidd yn sicrhau bod staff ac aelodau'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol ac yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd o ofal tuag at Aelodau, staff, cleientiaid ac aelodau'r cyhoedd" a -


"Mae monitro cofnodiadau'r cerbydau yn rheolaidd yn sicrhau bod y cerbydau a ddefnyddir ar fusnes y Cyngor mewn cyflwr addas a diogel ac yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd o ofal tuag at aelodau, staff, cleientiaid ac aelodau'r cyhoedd".

Yn ystadegol, mae gyrru cerbyd i ddibenion gwaith yn fwy tebygol o achosi niwed diwydiannol nag unrhyw gategori arall o waith. Mae Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiad Corfforaethol 2007 yn cydnabod hyn ac yn gosod rheolaethau i reoli gyrru i ddibenion gwaith. Fe allai methiant i gydymffurfio gyda'r rheoliadau hyn olygu cyhuddiad o Ddynladdiad Corfforaethol dan y Ddeddf.

**Y Rheolwr Fflyd a Gyrwyr yn y Gwasanaeth Priffyrdd a Rheoli Gwastraff yw'r Swyddog sy'n gyfrifol am fod â throsolwg o'r Polisi Rheoli Fflyd yn y Cyngor; ond y gwasanaethau eu hunain sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi yn eu gwasanaethau eu hunain. Yn y cyswllt hwn, mae'r methiant i gydymffurfio gyda'r Polisi Rheoli Fflyd yn ymwneud â gwendidau rheoli mewnol o fewn y gwasanaethau yn hytrach na gyda'r Gwasanaeth Rheoli Priffyrdd a Gwastraff sydd â throsolwg.**

Yn 2008/09 A 2009/10 roedd rhyw 277 o ddefnyddwyr car hanfodol yn y Cyngor a 1421 o staff yn hawlio costau teithio. Fe hawliodd 42 aelod o staff fwy na 8,000 milltir, gyda 28 ohonynt yn weithwyr Gofal Cartref.

## CASGLIAD




**Gan gymryd y materion a nodwyd i ystyriaeth, ni all y Cyngor fod â sicrwydd bod y rheolau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u llunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson a'u bod yn effeithiol.**

**Rhaid gweithredu i sicrhau bod y risg hon yn cael ei rheoli.**

Mae'r casgliadau uchod sydd yn bwydo i mewn i'r lefel sicrwydd cyffredinol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr adolygiad. Dyma'r casgliadau allweddol sy'n codi o'r adolygiad:

### Dyluniad y fframwaith rheoli

§ Canfuwyd bod y Polisi Rheoli Fflyd, er yn gynhwysfawr, yn anodd ei ddehongli a'i ddilyn oherwydd nad oedd yr elfennau o'r polisi oedd yn berthnasol i yrwyr cerbydau preifat bob amser yn dangos yn wahanol i'r elfennau o'r polisi oedd yn ymwneud â gyrwyr cerbydau'r Cyngor.

§ Nid oedd cyfrifoldebau Rheolwyr Llinell, Swyddogion Dynodedig a gyrwyr cerbydau preifat wedi'u crynhoi er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r holl agweddau oedd yn berthnasol ac yn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd.

§ Ychydig o fonitro canolog sydd ar gydymffurfiaeth gyda'r Polisi Rheoli Fflyd i ddarparu sicrwydd corfforaethol bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn gyda'i ddyletswyddau o dan y rheoliadau.

Argymhellir y dylid datblygu bas-data canolog a system fonitro ar gyfer cofnodi ac adolygu cydymffurfiaeth gyda'r holl amodau angenrheidiol mewn perthynas â gyrru cerbydau preifat ar fusnes y Cyngor er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio gydag anghenion cyfreithiol ac yn cynnal ei ddyletswydd o ofal tuag at weithwyr, Aelodau a'r cyhoedd.

### Defnyddio a chydymffurfio gyda'r fframwaith rheoli

§ Roedd anghysondeb o fewn gwasanaethau o safbwynt cynnal cofnodiadau gyrwyr a hynny'n golygu bod methiant i gydymffurfio gydag anghenion y polisi yn y mwyafrif o'r samplau a ddefnyddiwyd i'w profi yn yr archwiliad.

§ Nodwyd yn gyffredinol nad oedd yna unrhyw system safonol yn ei lle ar gyfer cofnodi a monitro data ar draws yr holl wasanaethau ac nad oedd dull systematig i sicrhau bod gwaith siecio'n cael ei wneud ar ddogfennau'r gyrwyr o fewn y cyfnodau amser a benodwyd.

## CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

Mae'r tabl isod yn dynodi y nifer o argymhellion a wnaed a chategori'r argymhelliad.

### Argymhellion a wnaed yn ystod yr archwiliad:

Mae'r argymhellion yn rhoi sylw i'r risgiau o fewn cwmpas yr archwiliad fel a ganlyn:

| | Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|---|
| **Risg** | **Uchel** | **Canolig** | **Isel** |
| Staff heb fod yn gwybod beth y maent yn gyfrifol amdano, neu sut y dylent gyflawni eu dyletswyddau, a hynny'n arwain at fethiant i gydymffurfio gyda deddfwriaeth, cyfreithiau neu bolisïau a gweithdrefnau sefydliadol. | 1 | 1 | 0 |
| Polisi Rheoli Fflyd yr Awdurdod ddim yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol a hynny'n | 0 | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| golygu bod mwy o risg o fethu â chydymffurfio. | | | |
| Methiant i gydymffurfio gyda'r rheoliadau yn arwain at risg gynyddol o gyhuddiad o ddynladdiad corfforaethol. | 1 | 1 | 4 |
| Staff newydd ddim yn cael eu hysbysu ynglyn â pholisiau a gweithdrefnau Rheoli Fflyd. | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **2** | **4** |

ATODIAD B

ADOLYGIAD O LWFANSAU AELODAU 2010/11

## RHAGARWEINIAD


Cafodd Lwfansau Aelodau eu harchwilio fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol Cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2010/11. Y Cyngor ei hun sy'n penderfynu ar hawl Cynghorwyr i lwfansau a hynny fel rhan o'i bwerau statudol ac yn unol ag argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Caiff y rhestr o lwfansau a delir i Aelodau ei chyhoeddi bob blwyddyn.

Ceir manylion am y Cynllun Lwfansau Aelodau yn Rhan 6 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn.

Caiff Lwfansau Aelodau eu penderfynu gan y Cyngor o fewn fframwaith statudol. Dan reoliadau a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru [Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Cymru) 2007], sefydlwyd corf annibynnol (Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) i bennu'r lefel uchaf o lwfansau yr argymhellir eu talu bob blwyddyn i aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig o Gynghorau. Gall y Cyngor fabwysiadu ffigyrau sy'n is na'r rheiny a argymhellir gan y Panel a gall aelodau unigol ddewis ildio'r cyfan o'u lwfansau neu ran ohonynt.

Cynhyrchir a chyflwynir adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid i'r Cyngor llawn yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â chyfraddau lwfansau fel y gellir gwneud penderfyniadau ar unrhyw newidiadau i'r cynllun talu.

## CASGLIAD




**Gan gymryd y materion a nodwyd i ystyriaeth, gall y Cyngor fod yn rhesymol sicr bod y gweithdrefnau rheoli y mae'n dibynnu arnynt i reoli'r risg wedi eu dylunio'n briodol, yn cael eu gweithredu'n gyson a'u bod yn effeithiol.**

**Fodd bynnag, rydym wedi nodi materion a fydd yn cynyddu'r tebygolrwydd o risg oni chânt sylw.**

Mae'r casgliadau uchod sy'n cyfrannu at y lefel sicrwydd gyffredinol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr adolygiad. Dyma'r casgliadau allweddol sy'n codi o'r adolygiad:

### Dyluniad y fframwaith rheoli

- Nid oes trefn ffurfiol i gofnodi bod gwybodaeth wedi cael ei ddosbarthu i'r Aelodau ynghylch trefniadau, cyfraddau ac amodau mewn perthynas â Lwfansau Aelodau.
- Nid oes trefn ffurfiol chwaith ar gyfer dosbarthu i'r Aaelodau bolisïau sy'n ymwneud â'r defnydd o systemau rhyngrwyd corfforaethol.

### Gweithredu a chydymffurfio gyda'r fframwaith rheoli

- O fewn y sampl a brofwyd, gwelwyd enghreifftiau lle nad oedd digon o wybodaeth neu wybodaeth ddiffygiol wedi ei chyflwyno i gefnogi'r ceisiadau am gostau teithio a chynhaliaeth a gafwyd mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd neu gyflawni dyletswyddau cydnabyddedig eraill fel Aelodau;
- Nodwyd anghysonderau mewn perthynas â'r gwasanaethau cefnogol a roddwyd i'r Aelodau gan gynnwys –
    - amrywiadau eang yn y defnydd a wneir gan Aelodau unigol o elfennau o'r gwasanaethau cefnogol sydd ar gael: ac
    - anghysonderau o ran y symiau a delir ar gyfer mynediad i'r system rhyngrwyd gorfforaethol.

## CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

Mae'r tabl isod yn dwyn sylw at nifer a math yr argymhellion a wneir.

### Argymhellion a wnaed yn ystod yr archwiliad hwn:

Mae'r argymhellion yn rhoi sylw i'r risgiau o fewn sgôp yr archwiliad fel sydd wedi ei nodi isod:

| | Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|---|
| **Risg** | **Uchel** | **Canolig** | **Isel** |
| Talu hawliadau sydd heb eu cymeradwyo neu hawliadau anghyflawn gan arwain at daliadau anghywir neu anawdurdodedig. | 0 | 4 | 1 |
| Nad yw hawliadau yn cael eu talu yn unol â'r cyfraddau swyddogol gan arwain ar golled ariannol i'r Awdurdod neu'r Aelod | 0 | 1 | 3 |
| Prosesu taliadau yn anghywir gan arwain at golled i Aelod neu'r Awdurdod | 0 | 0 | 0 |
| Peidio â chynnal manylion talu a chyllidebol gan arwain at dalu ddwy waith a gorwario | 0 | 0 | 0 |
| Peidio â chydymffurfio gyda rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau cefnogol a roddir i Aelodau. | 0 | 4 | 2 |
| **Cyfanswm** | **0** | 9 | **6** |